

Crynodeb Gwirio Ansawdd Clinig This Is Me Aesthetics & Healthcare

Dyddiad y gweithgarwch: 31 Ionawr
2022

Dyddiad cyhoeddi: 7 Mawrth 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Glinig This Is Me Aesthetics & Healthcare fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Lleolir y gwasanaeth ym Mhont-y-pŵl ac mae'n darparu triniaeth lleihau gwallt i gleifion 18 oed ac yn hŷn.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig / unigolyn cyfrifol ar 31 Ionawr 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Sut ydych yn sicrhau bod trefniadau glanhau ac atal a rheoli heintiau yn effeithiol er mwyn cadw staff, cleifion ac ymwelwyr yn ddiogel?
- Sut ydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a bod urddas cleifion yn cael ei gynnal? Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad i COVID-19, os o gwbl?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt gyrchu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut ydych yn sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal effeithiol a diogel?
- Sut ydych yn sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu mewn modd priodol a diogel, gan gynnwys sut mae offer laser yn cael eu cynnal yn briodol?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg amgylcheddol
- Asesiad risg COVID-19
- Polisi tân
- Tystysgrif yswiriant atebolrwydd

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ystod o gamau mae'r gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig i helpu i hyrwyddo amgylchedd diogel. Roedd y rhain yn cynnwys gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r clinig. Mae apwyntiadau wedi cael eu hystyngiwr er mwyn galluogi cwblhau tasgau glanhau ychwanegol rhwng cleifion ac mae ffenestri yn cael eu hagor i gael mwy o awyru. Mae'r seddau yn yr ystafell aros wedi cael eu hamddiffyn â gorchudd y gellir ei sychu ac mae apwyntiadau wedi cael eu trefnu i alluogi mynediad i un claf ar y tro i'r clinig. Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei ddefnyddio gan staff ac y gofynnir i gleifion wisgo masg, oni bai eu bod wedi'u heithrio.

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi derbyn a gweithredu canllawiau a chynghor gan gyhoeddiadau'r llywodraeth a'r GIG, ei gynghorydd iechyd a diogelwch, a'i gynghorydd diogelu rhag laserau hefyd. Mae'r cynghor wedi ei alluogi i weithredu'r newidiadau a restrwyd uchod, sy'n helpu i ddarparu amgylchedd mwy diogel i'w staff a'i gleifion.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod asesiadau risg amgylcheddol a COVID-19 wedi cael eu cwblhau ym mis Awst 2021. Ni wnaeth yr asesiadau dynnu sylw at unrhyw gamau gweithredu heb eu cymryd i'r lleoliad eu cwblhau. Dywedwyd wrthym fod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu a bod asesiad risgiau tân wedi cael ei gwblhau ym mis Awst 2021.

Gwnaethom gadarnhau bod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ddilys mewn grym. Darparodd y rheolwr gyfres o ddogfennau i ni yn amlinellu ei dull ar gyfer asesiadau risg yn y gweithle, gwiriadau rheolaidd o'r amgylchedd ac offer ac eitemau a ddefnyddir yn y clinig, a diogelwch tân.

Mae urddas a chyfrinachedd yn cael eu cynnal gan mai dim ond un claf sydd yn yr ystafell laser ar unrhyw adeg. Dywedwyd wrthym fod ystafell newid ar gael i gleifion (os oes ei

hangen) ac y darperir tywelion urddas untro yn ôl yr angen. Trafodir taith cleifion gyda nhw cyn dechrau unrhyw driniaeth.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom fod cwestiynau yn cael eu gofyn ynglŷn â dewis iaith cleifion ac a oes angen cyfieithydd ar ffurflen hanes meddygol cleifion. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod ganddi ap cyfieithu y gellir ei ddefnyddio i gyfathrebu â chleifion y gallai fod angen gwasanaethau arnynt mewn iaith arall. Er y dywedwyd wrthym na fu ofyn am hyn hyd yn hyn.

Felly, rydym yn argymhell cynnal adolygiad o Safon 18 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Cyfathrebu'n effeithiol), sy'n nodi bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn ffurf sy'n ystyried anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. Yn ogystal, mae Rheoliad 9 (1) (g) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig gael polisi ar waith sy'n amlinellu sut mae'n rhoi gwybodaeth i gleifion. Dylai'r polisi hwn amlinellu sut mae'r gwasanaeth yn mynd i fynd i'r afael â'r angen i gyfathrebu a darparu gwybodaeth yn Gymraeg pe bai claf yn gofyn amdani.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi rheoli gwastraff clinigol er mwyn rheoli heintiau
- Polisi hylendid dwylo
- Polisi cyfarpar diogelu personol
- Protocol COVID-19

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ystod o gamau yr oedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig i helpu i hyrwyddo arferion da o ran atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol gan staff a chleifion ar bob adeg. Roedd gorsafoedd diheintio dwylo a sinc ymolchi dwylo ar gyfer staff a chleifion ar gael hefyd. Roedd yr amserlen lanhau wedi cael ei haddasu i ganiatáu i dasgau glanhau gael eu cwblhau cyn ac ar ôl cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys dolenni drws a rheiliau, offer laser, gwely triniaeth, a sbectol i orchuddio'r llygaid.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ffurflenni i'w cwblhau cyn eu hapwyntiad, gan

gynnwys holiadur COVID-19. Yn ogystal, mae cwestiynau COVID-19 yn cael eu gwirio eto pan fyddant yn cyrraedd am eu hapwyntiad a bydd eu tymheredd yn cael ei gymryd. Ychwanegodd y rheolwr cofrestredig y gofynnir i gleifion ddilyn cyfundrefnau COVID-19 y clinig trwy wisgo masg wyneb a defnyddio'r cyfleusterau diheintio dwylo priodol a ddarperir.

Roedd yr asesiadau risg COVID-19 ac amgylcheddol yn nodi rhestr o beryglon amgylcheddol a hefyd yn cynnwys sut yr oedd COVID-19 yn cael ei reoli. Roedd yr asesiadau risg yn dogfennu'r camau gweithredu a gymerwyd i reoli'r risg, y unigolyn â chyfrifoldeb a'r amserlenni.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl wybodaeth i gleifion yn cael ei hanfon mewn neges e-bost at gleientiaid cyn eu hapwyntiad. Ar ôl trin claf, darperir gwybodaeth ôl-ofal hefyd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Fe wnaethom archwilio a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o ddiben
- Canllaw i gleifion
- Tystysgrif atebolrwydd yswiriant
- Tystysgrifau hyfforddiant diogelu
- Polisi diogelu
- Tystysgrifau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ac offer laser
- Ffurflenni ymgynghori, gan gynnwys ffurflen hanes meddygol a chydsynio
- Protocol triniaeth laser i gael gwared â gwallt
- Rheolau lleol
- Aseiad risg cynghorydd diogelu rhag laserau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom dystiolaeth i gadarnhau bod y gweithredwr laser wedi mynychu'r cwrs Craidd Gwybodaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Darparwyd tystysgrifau hefyd i gadarnhau bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio'r laser yn llwyddiannus.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amod cofrestru i drin cleifion dros 18 oed yn unig. Roedd y gweithdrefnau y bydd y gwasanaeth yn eu dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu yn codi wedi eu manylu yn ei bolisi diogelu. Gwelsom dystysgrif i

ddangos bod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant diogelu yn 2019.

Dim ond un aelod o staff sydd gan Glinig This Is Me Aesthetics & Healthcare, sef y rheolwr cofrestredig / gweithredwr laser, a dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gamau brys i recriwtio staff newydd/ychwanegol. Dywedwyd wrthym fod system ar waith i sicrhau fod hyfforddiant yn cael ei gadw'n gyfredol.

Cawsom y copi diweddaraf o ddatganiad o ddiben y gwasanaeth, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Gofal diogel ac effeithiol

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi cyflawni triniaeth yn ddiogel ac yn effeithiol i gleifion. Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith i egluro triniaethau i gleifion, sut mae anghenion triniaeth yn cael eu hasesu, a sut mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r offer laser.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod yr holl gleifion yn cwblhau ymgynghoriad wyneb yn wyneb o flaen llaw cyn cychwyn unrhyw driniaeth. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth i gleifion a chaniatáu amser i ddarparu gleifion ystyried eu dewisiadau o ran triniaeth.

Cesglir ffurflenni hanes meddygol fel rhan o'r ymgynghoriad i sicrhau addasrwydd y driniaeth a ddewisir. Mae'r rhain yn cael eu gwirio a'u llofnodi gan y claf am unrhyw newidiadau cyn unrhyw driniaeth ychwanegol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai protocolau triniaeth yn cael eu gwirio ac y byddai cyngor meddygol addas yn cael ei geisio pan fo unrhyw amheuaeth wedi bod ynglŷn ag addasrwydd triniaeth a ddewiswyd.

Gwelsom fod cydsyniad yn cael ei sicrhau gan gleifion cyn bwrw ymlaen â'r driniaeth ac mewn unrhyw apwyntiadau dilynol. Mae'r broses hon yn cynnwys trafodaeth ynglŷn â'r risgiau, y buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a ddymunir.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod prawf ar ddarn o groen yn cael ei gwblhau ar gyfer pob claf cyn y driniaeth a bod gwybodaeth ôl-ofal addas yn cael ei darparu i gleifion yn dilyn triniaeth.

Gwnaethom ystyried sut roedd yr offer laser a'r dogfennau cysylltiedig wedi'u cynnal trwy gydol y pandemig i sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Canfuom y canlynol:

- Roedd protocolau triniaeth ar waith ac wedi'u dilysu gan weithiwr proffesiynol oedd

wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

- Roedd rheolau lleol ar waith ac wedi'u hysgrifennu gan gynghorydd diogelu rhag laserau. Roedd y rheolau lleol yn cynnwys y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio laserau yn ddiogel yn unol â deddfwriaeth, safonau a chanllawiau.
- Mae gwaith gwasanaethu ac ail-raddnodi cyfarpar laser wedi cael ei drefnu ar gyfer Chwefror 2022.
- Roedd hyfforddiant Craidd Gwybodaeth¹ wedi cael ei gwblhau.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Nid yw'r protocol triniaeth a gyflwynwyd yn cynnwys unrhyw wybodaeth wrtharwyddo. Er bod y cofnod triniaeth a'r ffurflen gydsynio yn cynnwys adrannau ar gyfer cyflyrau meddygol a gwrtharwyddion, fe gynghorwyd bod y protocol triniaeth hefyd yn cynnwys hyn a/neu gyfeiriad i ble y gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon.

Yn ogystal, gwelsom fod ffurflen gydsynio ar waith a dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu holi i lofnodi a dyddio'r ffurflen ym mhob apwyntiad. Rydym yn argymhell bod polisi cydsynio yn cael ei lunio a fydd yn cefnogi'r broses uchod ac yn sicrhau bod gweithdrefn y clinig ar gyfer cael cydsyniad wedi ei dogfennu'n glir.

¹ Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn darparu sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser a golau pwls dwys yn ddiogel ac yn effeithiol.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: This Is Me Aesthetics & Healthcare

Dyddiad y gweithgarwch: 31 Ionawr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y clinig yn mabwysiadu polisi sy'n amlinellu sut y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r angen i gyfathrebu a darparu gwybodaeth yn Gymraeg a/neu iaith arall pe bai claf yn gofyn amdani.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 18 - Cyfathrebu'n effeithiol Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 9 (1) (g)			
2	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfeiriad at wybodaeth	Rheoliadau Gofal Iechyd			

	wrtharwyddo yn y protocol triniaeth.	Annibynnol 2011 - Rheoliad 15 (1) (b) (c)			
3	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi cydsynio ar waith. Bydd hyn yn cadarnhau'r broses gydsynio sy'n cael ei dilyn yn y clinig ac yn sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei dogfennu'n glir.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 9 (1) (b)			

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: